Cyngor Tref Caerfyrddin
Carmarthen Town Council

DATGANIAD I'R WASG - PRESS RELEASE

Mae Maer Tref Caerfyrddin y Cynghorydd Jeff Thomas wedi cyflwyno siacedi hygrededd uchel i grŵp 'Awaydays Coastcare' yn y dref i helpu nw i gadw'n ddiogel tra'u bod nw'n gwneud gwaith glanhau a chadw'r dref yn daclus.

Alan Bowen a Roy Perry yn derbyn y siacedi oddiwrth Maer Tref Caerfyrddin y Cynghorydd Jeff Thomas

Dywedodd y Maer: 'Mae Alan Bowen a'r grwp o wirfoddolwyr o 'Awaydays Coastcare' yn gwenud gwaith bendigedig tuag at wella golwg y dref. Mae'r Cyngor

Tref yn cydnabod y cyfraniad mawr maent yn ei gwneud tuag at y gymdeithas leol, a gobeithio bydd y siacedi yma hefyd yn hyrwyddo gwybodaeth pobl lleol am y grŵp a'r gwaith da maent yn cyflawni'.

Dywedodd Alan Bowen, Cadeirydd 'Awaydays Coastcare' bod y gymdeithas yn bodoli er lles pobl sy'n dioddef o salwch meddyliol ac i roi cynnig iddynt i ddatblygu eu sgiliau cymdeithasol ac hybu eu hyder mewn sefyllfeydd cyhoeddus. Mae'r gwaith o godi sbwriel a glanhau ardaloedd cyhoeddus yn yr ardal hefyd o fudd i'r amgylchedd. R'ydym yn falch iawn o'r gefnogaeth ariannol oddiwrth y Cyngor Tref, ac hefyd bydd y siacedi yma yn tynnu sylw'r gymuded at ein gwaith da'.

Alun J Harries
Clerc, Cyngor Tref Caerfyrddin – Clerk, Carmarthen Town Council
01267 235199
5th July 2019